

2004: Ysbyty Brynaber - Week 66

Key Language

Dod â/Mynd â – to bring/to take
Clywed
NW/SW plurals: -oedd or –au?

New Words and Phrases

| | |
|------------------------|-----------------------------|
| Gweiddi | to shout |
| Casáu | to hate |
| Ai peidio? | or not? |
| Triniaeth | treatment |
| Amgylchiadau | circumstances |
| Ymestyn | to reach |
| Gwydr | glass |
| Hyn a hyn | so much |
| Doethach | more sensible |
| Adnoddau | resources |
| Trin | to treat |
| Hapus dros ben | extremely happy |
| Ble ar wyneb y ddaear? | Where on earth? |
| Becso fy enaid | Worried out of my mind (SW) |
| Yli! | Look! (NW form) |
| Egluro | to explain |
| Cefndir | background |
| Cwrdd | to meet |
| Ar hyn o bryd | at the moment |
| Gwastad | always |
| Darn | piece |
| Amau | to suspect |
| Ers talwm | for a long time |
| Fel ag erioed | as always |
| Profiad | experience |
| Yn ddiweddar | recently |
| Bygwth | to threaten |
| Crefu | to urge |
| Tan | until |
| Methu | to be unable/ to fail |
| Deuddydd | two days |
| Tlotach | poorer |

| | |
|---------------------|-------------------------|
| Canolbwyntio | to concentrate |
| Cwsmer | customer |
| Cyfan | all/everything |
| Go brin | hardly |
| Hollol o ddifrif | in all seriousness |
| Cyfaddef | to admit |
| Ceiniog | penny |
| Yn syth | immediately |
| Cyfle | chance |
| Cwmpo ar ei fai | to own up |
| Callaf | most sensible |
| Palu celwyddau | to spin lies |
| O fewn trwch blewyn | within a hair's breadth |
| Brifo | to hurt |
| Nefoedd yr adar! | For goodness sake |
| Golwg | sight |
| Creadur | Poor thing |
| Pennaf | main |
| Dal | to hold |
| Golau | light |
| Hawdd | easily |
| Dim callach | none the wiser |
| Hyd yn oed | even |

After brandishing a gun during a fight with Brian and Arwyn whilst smuggling illegal immigrants into Wales, Jac has accidentally shot himself in the foot. Arwyn, as a former surgeon, has tended to the injury as best he can but thinks that Jac needs to go to hospital. Jac refuses to go to hospital and starts to panic about what will happen as they approach dry land.

Main Grammatical Points

Brian asks Jac whether he's received payment from Duncan, one of Jac's shady friends, for smuggling immigrants into the country.

Here, we see the use of *dod â* – to bring. Literally, this is a combination of the verb *dod* (to come) and the preposition *â* (with), but when used together, *dod â* means to bring – *dod â*. Brian asks Jac several times: “Did he bring us the money?” – “Ddaeth o â'r pres i ni?”. Let's listen to the use of this form.

Jac - Roedd Duncan yn hapus iawn, Brian.

Brian - Da iawn. Dw i'n falch o glywed. Ond ddaeth o â'r pres i ni?

Jac - *Actually*, oedd o – beth ydy'r term Cymraeg? – *he was over the moon?*

Brian - Jac – ddaeth Duncan â'r pres i ni?

Jac - Brian – ddim “ddaeth Duncan â'r pres i ni?” ydy'r term Cymraeg am “*he was over the moon...*” – yn naci?

Brian - Jac! “Wrth ei fodd” ydy *over the bloody moon!* – ond ddaeth Duncan â'r pres i ni ai peidio?

There's a similar construction using the combination of the verb mynd (to go) and the preposition â (with). In combination, 'mynd â' means 'to take' - mynd â. Don't fall into the trap of translating every 'dod' and 'mynd' as 'come' and 'go' without listening to the full sentence or phrase first. That little word 'â' can make a world of difference!

Following his injury, Jac is in great pain and is obviously running a temperature.

Jac - Ydych chi'n ei chlywed hi'n boeth yma?

Brian - Beth sy'n bod? Wyt ti'n iawn?

Jac - Nac ydw...Dw i ddim yn iawn...Ddr... Ga'i ddwr...?

We heard Jac ask Brian and Arwyn if they felt as warm as he did - 'ydych chi'n ei chlywed hi'n boeth yma?' - literally, 'do you HEAR it hot in here?' In Welsh we 'hear' many of the senses.

| | |
|---------------|------------------|
| Feel warm is | Clywed yn gynnes |
| Feel tight is | Clywed yn dynn |
| Taste sour is | Clywed yn sur |

However, if you want to say that you've heard a sound – 'swn' - it's translated exactly as you'd expect:

Clywed swn

The only sense, where Welsh *doesn't* use the verb 'clywed' – to hear – is for the sense of sight.

To see a child is "gweld plentyn"

Don't worry if you forget this form – you can always use 'teimlo' (to feel) and 'blasu' (to taste). But if you *do* remember to use 'clywed' you'll be guaranteed to impress your friends!

Jenny's furious that Jac's swindled her out of a lot of money. Note the dialectal differences that we see this week between the North Wales and the South Wales plural form of the word 'punt' – a pound.

Punnoedd – 'pounds' in North Wales

Punnau – 'pounds' in South Wales

Ysbyty Brynaber: Episode 196

It seems that there's good news all round - so Jac, Arwyn and Brian make it their business to celebrate in style!

Geirfa

| | |
|----------------|-----------------|
| Gweiddi | to shout |
| Casáu | to hate |
| Ai peidio? | or not? |
| Triniaeth | treatment |
| Amgylchiadau | circumstances |
| Ymestyn | to reach |
| Gwydr | glass |
| Hyn a hyn | so much |
| Doethach | more sensible |
| Adnoddau | resources |
| Trin | to treat |
| Hapus dros ben | extremely happy |

Golygfa 1

Brian - ... Jac? Jac?

Jac – Ie, ie, *allright* - does dim eisiau i ti weiddi...

Brian - Lle oeddech chdi?

Jac - Ar y sofffa...Yn hanner cysgu...

Brian - Wnes i ddim dy weld ti...

Jac - *You should learn to look.*

Brian – Ha, ha. Sori. Doedd dim *squash* ar ôl...Ges i *lemonade*.

Jac – Dw i'n casáu *lemonade*.

Brian - Sori. Dyna'r cwbl oedd ar ôl...

Jac - So.

Brian - So. Beth?

Jac – Wel, mi alwodd Duncan heibio.

Brian - Ddaeth o â'r pres i ni?

Jac - Roedd Duncan yn hapus iawn, Brian.

Brian - Da iawn. Dwi'n falch o glywed. Ond ddaeth o â'r pres i ni?

Jac - *Actually*, oedd o – beth ydy'r term Cymraeg? – *he was over the moon?*

Brian - Jac – ddaeth Duncan â'r pres i ni?

Jac - Brian – ddim “ddaeth Duncan â'r pres i ni?” ydy'r term Cymraeg am “*he was over the moon...*” – yn naci?

Brian - Jac! “Wrth ei fodd” ydy *over the bloody moon* – ond ddaeth Duncan â'r pres i ni ai peidio?

Jac - Do. *Three bags full.*

Brian – Wel, diolch byth.

Jac - Neu “Diolch i'r drefn!”

Brian - Neu “Diolch i Dduw!” Dangos, dangos...*C'mon*

Jac - Aros...Paned o de *first*. *And I've also texted Arwyn. He's on his way over...So.*

Brian - So...

Jac - *Happy ending...after all.*

Brian - Ie...Sut mae dy droed di?

Jac - Poenus.

Brian - Ond ddim mor boenus ag y buodd hi?

Jac - Dal yn boenus...*Hurts like hell...*Dw i'n gwybod beth sy'n mynd trwy dy feddwl di...Dw i'n gwybod beth wyt ti'n ei feddwl rwan...*Why doesn't Jac go to a hospital? Why doesn't Jac get his foot sorted out?* Ydw i'n iawn?

Brian - Mi fuasai fo'n gwneud *sense*, oni buasai?

Jac - Pam? A finnau'n cael *private treatment* fan hyn yn y t□?

Brian - Arwyn. Dwyt ti erioed yn galw Arwyn yn driniaeth breifat?

Jac - Mae o wedi rhoi triniaeth i fi...

Brian - Ydy. Y driniaeth orau y gallai o. O dan yr amgylchiadau.

Jac - Ond...?

Brian - Ond dw i'n dal i feddwl y buasai chdi yn well *off* yn mynd i ysbyty...

Jac - *No way, Jose.* Fyddai cwestiynau yn bownd o gael eu gofyn. *Nasty questions like: "And tell me Mr Whelan, how exactly did you get your foot shot?"* A'r peth nesaf: bydd yr *Old Bill* yn *involved*...

Brian - Dw i'n meddwl y dylet ti fynd, Jac....Aros lle wyt ti. Mi af i...

Jac - O, Arwyn! Mi ddest ti...

Arwyn - Siampên?

Jac - Ymestyn y gwydrau yna o'r cwpwrdd, Bri.

Arwyn - Sut mae'r droed? Allaf i weld?

Jac - *Drop me off some more pain killers - I'll be fine.*

Brian - Wnes i ddweud y buasai hi'n well i Jac fynd i'r ysbyty, Arwyn.

Arwyn - Buasai. Ysbyty yw ei le fe. Achos dim ond hyn a hyn dw i'n gallu ei wneud, Jac...

Jac - ...O'n i'n meddwl dy fod ti'n *surgeon...First class surgeon etc etc...*

Arwyn - O'n i yn *first class*. Cyn i fi gael y *sack*. A dyna pam dw i'n meddwl y byddai hi'n ddoethach i ti fynd i'r ysbyty. Fan hynny mae'r adnoddau i drin dy droed di'n iawn. Dim ond *patch job* dw i wedi ei wneud ami...

Jac - Brian? Os gweli di'n dda? Wnei di agor y botel siampên...? A dyma ti, Arwyn - *catch!* - 'presant' bach i ti.

Arwyn - Diolch...

Jac - Diolch i ti. *We got the cargo onto dry land safely.* A maen nhw rwan - yr *illegal immigrants* - i gyd yn Birmingham. Yn hapus dros ben...

Arwyn - A'r babi?

Jac - *Fine.* Dim problem. Roedd Duncan yn blest iawn hefo'r gwaith wnaethon ni...

Brian - Jac...Arwyn...

Arwyn - Diolch...

Jac - I ni, bois...lechyd da!

Arwyn/Brian - lechyd da!

Arwyn - Ond rwy'ti dal yn ff□l, Jac. Y ff□l mwyaf sy'n bod.

Jac - *You cheeky sod!* Wyt ti'n cael dy bres, cael dy siampên - a ti'n dechra *slagio* fi *off!* Ac wyt ti'n gwybod beth, Arwyn? Dyna pam dwi'n dy leicio di gymaint. *A man after my own heart...*Dewch, bois...Mae Duncan wedi gadael chwe photel i ni i gyd..!

Ysbyty Brynaber: Episode 197

Jenny bumps into her ex-husband Arwyn in town and confides in him about Jac's deceit.

While Jac and Brian nurse their hangovers after their night of celebration, an irate Agnes grills Jac on the phone.

Geirfa

Ble ar wyneb y ddaear? Where on earth?

Becso fy enaid Worried out of my mind

Yli! Look! (NW form)

Egluro to explain

Cefndir background

Cwrdd to meet

Ar hyn o bryd at the moment

Gwastad always

Darn piece

Amau to suspect

Ers talwm for a long time

Fel ag erioed as always

Profiad experience

Diweddar recently

Bygwth to threaten

Crefu to urge

Tan until

Methu to be unable/ to fail

Deuddydd two days

Golygfa 1

Brian – Jac!

Jac - Mae'n *alright* Brian – gaf i hi...

Brian – Wyt ti'n siwr?

Jac - Ydw, ydw – cer di nôl i'r gwely...

Brian – Does fawr o bwynt – dw i wedi deffro rwan...Coffi?

Jac - Ie...*alright*. Gret...Helo?

Agnes - Jac...?

Jac – Sut mae?

Agnes - Ble ar wyneb y ddaear wyt ti wedi bod? Dw i wedi bod yn beco'n enaid yn meddwl bod rhywbeth wedi digwydd i ti!

Jac – Na, na, dwi'n iawn siwr...

Agnes - Ond ble wyt ti wedi bod? Dw i wedi trio dy ffonio di ar dy *mobile* – ond doedd byth ateb...

Brian - Jac? Wyt ti'n cymryd siwgwr yn dy goffi...?

Jac - ...Plis Bri... dau...Yli, gwrandda...Allaf i ddim siarad rwan...Ond dwi'n gaddo dy ffonio di eto ac egluro lle dwi wedi bod...*Allright*?

Agnes - Glywais i Brian yn y cefndir nawr...?

Jac – Does dim eisiau i mi ddweud mwy felly - nag oes?

Agnes - Pryd allen ni gwrdd...?
 Jac - Gad i mi dy ffonio di...
 Agnes - Ond pryd?
 Jac - Mae petha'n anodd iawn ar hyn o bryd...*Allright?*
 Agnes - Mae pethau wastad yn anodd gyda ti...Ond cyn i ti fynd...Mae rhywbeth dw i'n gorfod ei ofyn:
 wyt ti wedi twyllo Jenny Saunders o arian?
 Brian – Wyt ti eisiau tost, Jac?
 Jac – *Yeah please*, Bri...
 Brian - Un darn neu ddau...?
 Jac - Dau.
 Brian - Menyn a mêl? Neu jyst menyn?
 Jac – Na, jyst menyn.
 Brian - Owcidowc!
 Agnes – Dwyt ti byth wedi fy ateb i, Jac...
 Jac - Allaf i ddim siarad rwan...
 Agnes - Mae beth mae Jenny yn ei ddweud yn wir, ynte?
 Jac - Nac ydy.
 Agnes - Wyt ti neu wyt ti ddim wedi'i thwyllo hi o wyth mil o bunnau?
 Jac - Ddim fi wnaeth – rhywun arall. Ond allaf i ddim egluro'r cwbl rwan. Mi roddaf i ring i ti eto.
allright?

Golygfa 2

Jenny – Arwyn...Arwyn?
 Arwyn - Jenny...Roeddwn i'n amau fod rhywun yn galw arnaf i...
 Jenny - Jacet newydd, dwi'n gweld...? Neis iawn hefyd...
 Arwyn - Brynais i hi ddoe...
 Jenny - Mae hi'n dy siwtio di. A dw i'n leicio'r lliw...
 Arwyn - Diolch yn fawr.
 Jenny – Rwyd ti'n edrych yn dda...
 Arwyn - A ti hefyd.
 Jenny - A dweud y gwir, rwyd ti'n edrych lot yn well nag wyt ti wedi ei wneud ers talwm...Os wyt ti ddim
 yn meindio i mi ei ddweud.
 Arwyn - Sut mae pethau lan tua'r ysbyty?
 Jenny - Fel ag erioed.
 Arwyn – Dw i'n falch fy mod i mas.
 Jenny – Dwyd ti ddim wir yn meddwl hynny – wyt ti? *Dw i* wedi cael profiad ofnadwy yn ddiweddar...
 Arwyn - Profiad ofnadwy? Sut?
 Jenny – Dw i wedi colli miloedd o bunnoedd...
 Arwyn - Sut wnest ti hynny?
 Jenny - Ges i fy nhwyllo.
 Arwyn - Dy dwyllo? Gan bwy?
 Jenny - *Con-man*.
 Arwyn - Mae hynny'n beth ofnadwy i ddigwydd...Wyt ti wedi dweud wrth yr heddlu?
 Jenny – Dw i'n bygwth gwneud...ond...
 Arwyn – Does dim eisiau bygwth. Gwna! Cer at yr heddlu...
 Jenny - Allaf i ddim...
 Arwyn - Pam?
 Jenny - Mae Agnes wedi gofyn i mi beidio...
 Arwyn - Sa i'n deall nawr...
 Jenny - Y *con-man* ydy Jac Whelan. Ac mae Jac ag Agnes yn eitem. Mae hi wedi crefu arnaf i
 beidio â mynd at yr heddlu tan mae hi wedi cael cyfle i siarad hefo fo.
 Arwyn – Ac ydy hi?
 Jenny - Ddim hyd yn hyn...Achos mae hi wedi methu â chael gfael arno fo...Ond dw i am roi
 deuddydd arall iddi ac ar ôl hynny dw i'n mynd i roi'r mater yn nwylo'r heddlu...
 Arwyn - A sut yn gymwys mae e wedi dy dwyllo di?
 Jenny - Dim ots sut. Dwi wyth mil o bunnoedd yn dlotach – dyna sy'n bwysig.

Ysbyty Brynaber: Episode 198

There's a dramatic turn of events as Arwyn and Brian try to wheedle the truth out of Jac. Will they get the answer they're looking for?

Geirfa

| | |
|---------------------|----------------------------------|
| Canolbwyntio | to concentrate |
| Cwsmer | customer |
| Cyfan | all/everything |
| Go brin | hardly |
| Hollol o ddifrif | in all seriousness |
| Cyfaddef | to admit |
| Ceiniog | penny |
| Yn syth | immediately |
| Cyfle | chance |
| Cwmpo ar ei fai | to own up |
| Callaf | most sensible |
| Palu celwyddau | to spin lies |
| O fewn trwch blewyn | within a hair's breadth |
| Brifo | to hurt |
| Nefoedd yr adar! | For goodness sake |
| Golwg | sight |
| Creadur | Poor thing (literally: creature) |
| Pennaf | main |
| Dal | to hold |
| Golau | light |
| Hawdd | easily |
| Dim callach | none the wiser |
| Hyd yn oed | even |

Golygfa 1

Brian - ...Beth? Dyweda eto...

Arwyn – Dw i wedi dweud unwaith yn barod, Brian...

Brian - Sori, Arwyn. Mae hi'n anodd canolbwyntio hefo cwsmeriaid yn dod i mewn ag allan trwy'r amser...

Arwyn - Does dim lot i'w ddweud. Y cyfan sy'n bwysig yw ein bod ni'n dau yn mynd draw i'r tŷ at Jac Whelan nawr a gofyn os yw e wedi twyllo Jenny o wyth mil o bunnau.

Brian - Mmmm-hmmm. Ond go brin ei fod o...

Arwyn - Brian – roedd Jenny yn hollol o ddifrif...

Brian - Wyth mil o bunnoedd? Wyt ti'n siwr rwan?

Arwyn - Dyna beth ddywedodd hi. Wyth mil...

Brian - Fod Jac wedi'i thwylllo hi o wyth mil o bunnoedd?

Arwyn - Ie!

Brian - A beth yn hollol wyt ti eisiau i ni ei wneud?

Arwyn - Ei gael e i gyfaddef ei fod e wedi gwneud hynny - i ddechrau...
 Brian - A wedyn? Os ydy o'n cyfaddef...
 Arwyn - Bydd rhaid iddo fe dalu pob ceinog yn ôl yn syth.
 Brian - Ac os na wneith o?
 Arwyn - Mae Jenny wedi dweud wrthyf i yn hollol ddifrifol ei bod hi'n mynd i riporto'r cyfan i'r heddlu...
 Brian – Wel, pam ydy hi heb wneud hynny'n barod?
 Arwyn - Achos...emmm...achos ei bod hi moyn rhoi'r cyfle iddo fe gwympo ar ei fai a thalu'r arian yn ôl...
 Brian – Wel, y peth diwethaf bydd Jac eisiau ydy llond t□ o blismyn hefo warant. Wel, diolch am ddod draw i ddweud wrthyf i Arwyn...Y peth callaf ydy rwan i chdi a fi fynd draw i weld Jac hefo'n gilydd...

Golygfa 2

Jac - Rho brêc i fi, 'nei di, Brian?
 Brian - Ydy o'n wir, Jac?
 Jac - Nac ydy...Wrth gwrs ei fod o ddim yn wir!
 Arwyn - Beth? Wyt ti'n dweud y byddai Jenny yn palu celwyddau am bytu ti?
 Jac – Dydy o ddim cweit mor syml â hynny...
 Arwyn - Felly wnest ti ei thwylo hi o wyth mil o bunnau?
 Jac - Naddo...
 Arwyn – Wyt ti'n deall ei bod hi o fewn trwch blewyn i dy riporto di i'r heddlu? I'r heddlu! Dyna beth wyt ti moyn? Ie? Wyt ti wir moyn llond t□ o blismyn yma? Yn mynd trwy dy bethau di?
 Jac - Nagoes siwr...
 Arwyn – Wyt ti moyn i'r heddlu ddod i wybod am dy sgam di a Duncan? Dod ag *illegal immigrants* i mewn i'r wlad yma? A sut wyt ti'n egluro dy droed?
 Jac - Arwyn, plis paid â gweiddi gymaint...
 Arwyn - Sut wyt ti'n egluro *gunshot wound* yn dy droed?
 Brian - Jac? Beth sydd?
 Jac - Ydych chi'n ei chlywed hi'n boeth yma?
 Brian - Beth sy'n bod? Wyt ti'n iawn?
 Jac - Nac ydw...Dw i ddim yn iawn...D□r... Brian...Ga'i dd□r...?
 Brian - Arwyn...plis...Dy droed di sy'n brifo...Gad i mi dynnu dy sliper di...Tyrd yma....O nefoedd yr adar!...
 Jac - ...Beth wyt ti'n ei weld? Mmm? Brian?...
 Brian - Arwyn – ddoi di yma, plis? Arwyn!

Golygfa 3

Brian – Dw i ddim yn meddwl gallaf i sefyll fan hyn trwy beth wyt ti'n mynd i'w wneud, Arwyn...
 Arwyn - Wrth gwrs y gelli di...
 Brian - Mae gweld gwaed yn ddigon amdanaf i...
 Arwyn - Fydd ddim cyment a 'ny – wy'n addo. Gad i fi roi'r tywelion fel hyn o dan 'i dro'd e....
 Brian – Wyt ti wir yn mynd i ddefnyddio'r *scalpel* yna ar ei droed o?...Ateb fi...
 Arwyn - Paid â beco nawr...*Operation* fach syml fydd hi...
 Brian - Edrych y golwg ar ei droed o...Creadur. *Out for the count*. Allan ohoni'n lân. Ar fwrdd ei gegin ei hun. Mewn ysbyty dylai fo fod...Ddim fan hyn...Ddim fel hyn...
 Arwyn - A dw i'n cytuno...Ond smo fe moyn mynd i ysbyty – felly pa ddewis sydd gyda ni?
 Brian - Mae hyn yn mynd i weithio yn tydy? Ydy o? Wyt ti'n siwr rwan?
 Arwyn - Rho'r *mask* yma dros dy wyneb...Dyna ti...Fel yna...Nawr dere...Dere i'r ochr yma i'r bwrdd...Nawr ynte...Dy waith pennaf di bydd dal y golau i mi...Dal y lamp yma yn *steady*...O'r gorau?
 Brian - O'r gorau...
 Arwyn - Edrycha arno fe...Yn cysgu fel babi...Allen ni'n hawdd ei ladd e nawr. Ac wyt ti'n gwybod beth, Brian? Fyddai Jac Whelan ddim callach hyd yn oed.
 Brian – Buasai'n well i chdi beidio...
 Arwyn - Mae'n well iddo fe dalu'r arian yna yn ôl i Jenny.
 Brian - Ddim fo sydd wedi ei thwylo hi. Dyna beth dywedodd o.
 Arwyn - Ie, dw i'n gwbod. Ond wyt ti'n ei gredu e?

Synopsis

Jenny tells Arwyn that Agnes and Jac are an item and that Jac has diddled her out of a lot of money. Arwyn is angry that Jac has deceived his wife, even though they've separated. With Brian's help, he confronts Jac about the matter. Jac of course denies everything.

Both Arwyn and Brian think that Jac needs proper medical treatment on his injured foot. But Jac refuses to go to hospital – he knows there'll be too many questions. Jac's foot eventually becomes so infected that Arwyn, aided by Brian, is forced to perform a mini-operation in the house.

Test yourself

1. How do you say the phrase "he's over the moon" in Welsh?
 - a) Dros ben llestri
 - b) Dros y lleuad
 - c) **Wrth ei fodd**

2. Jac says, "Roedd Duncan yn **blest** iawn". What English word does "**blest**" or "**bles**" come from?
 - a) **pleased**
 - b) blessed
 - c) plastered

3. "Iechyd da!" is the word for "cheers" when proposing a toast in Welsh. But what is its literal meaning?
 - a) Bottoms up!
 - b) **Good health!**
 - c) Good riddance!

4. "Tlotach" meaning "poorer" is the comparative form of what word?
 - a) **Tlawd**
 - b) Tlodi
 - c) Tlotaf

5. The plural form of "cwsmer" meaning "customer" is:
 - a) Cwsmerau
 - b) Cwsmeroedd
 - c) **Cwsmeriaid**

6. How do you say "a full house" in Welsh?
 - a) T□ llon
 - b) T□ bach
 - c) **Llond t□**